Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Gylch Meithrin Nant Dyrys
## Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen
## Clinic Road
## Ynyswen
## Treorci
## CF42 6ED

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/08/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Nant Dyrys wedi'i leoli mewn caban pwrpasol ar faes Ysgol Gynradd Ynyswen yn awdurdod lleol Rhondda Cynnon Taf. Daw'r plant sy'n mynychu'r lleoliad o bentref Ynyswen a'r ardal gyfagos. Mae'r lleoliad ar agor i blant rhwng dwy a phedair oed am bum bore'r wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 24 o blant. Mae 21 o blant ar y gofrestr, gyda phedwar ohonynt yn cael addysg blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu gan yr awdurdod. Saesneg yw prif iaith y cartref i'r mwyafrif o'r plant. Ar hyn o bryd, mae ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad.

Mae pedwar aelod o staff, yn cynnwys arweinydd amser llawn a dwy aelod o staff dan gynllun creu gwaith, yn gweithio yn y lleoliad. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Medi 2000.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Hydref 2014 a chan Estyn ym Mehefin 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y lleoliad yn gymuned gynnes, ofalgar a chefnogol
- ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd y plant
- ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol a chreadigol o'r amgylchedd ddysgu, yn enwedig yr ardal allanol, i atgyfnerthu dysgu'r plant
- ymddygiad y plant yn dda
- gan y lleoliad ddarpariaeth fuddiol ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant
- y lleoliad yn gwneud defnydd pwrpasol o ymweliadau yn y gymuned ac ymwelwyr i ymestyn a chyfoethogi dysgu'r plant
- ymarferwyr yn annog plant i fod yn ddysgwyr annibynnol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- yr arweinyddiaeth yn effeithiol a chadarn
- ymarferwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd fel tîm ac yn cyflawni eu rolau yn gydwybodol ac effeithiol
- trefniadau hunanarfarnu'r lleoliad yn adnabod y meysydd priodol i'w datblygu
- systemau pwrpasol yn eu lle er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliannau
- y lleoliad yn gwneud defnydd da o hyfforddiant i wella profiadau dysgu plant
- yna bartneriaeth fuddiol rhwng y rhieni a'r ymarferwyr sy'n cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus
- ystod eang o bartneriaethau eraill yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawniadau a lles y plant

## Argymhellion

A1 Defnyddio asesu yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau sydd yn bodloni anghenion pob plentyn, yn enwedig y rhai mwy abl

A2 Cynllunio'n gydlynus er mwyn datblygu medrau llafar Cymraeg y plant

A3 Datblygu rôl y pwyllgor rheoli i werthuso a monitro gwaith y lleoliad yn effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadlewyrchu'n effeithiol yn ansawdd y rhan fwyaf o brofiadau dysgu mae'r lleoliad yn eu darparu. Mae'r cynllunio'n fanwl a hyblyg, ac wedi'i seilio ar themâu addas sy'n galluogi ymarferwyr i ddarparu amrediad eang o weithgareddau ysgogol. Mae'r gweithgareddau hyn yn denu diddordeb y plant ac yn codi eu hawydd i ddysgu. Mae cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau meddwl, mentro ac arbrofi gyda phrofiadau newydd gan ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Drwy gynllunio'n bythefnosol, mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i ddiddordebau'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn adeiladu yn ddigon systematig a chydlynus ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol a medrau llafaredd y plant. O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn bodloni gofynion pob unigolyn, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a chyfathrebu plant yn foddhaol. Gwneir defnydd effeithiol o storïau, caneuon a rhigymau i atgyfnerthu medrau llafar y plant. Mae mwyafrif ohonynt yn deall cyfarwyddiadau syml ac yn defnyddio ychydig o eiriau Cymraeg cyfarwydd yn eu chwarae bob dydd, er enghraifft wrth drafod y tywydd. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn gwneud defnydd digon cyson o'r Gymraeg, ac o ganlyniad, nid yw medrau llafar y plant yn datblygu'r un mor effeithiol. Mae cyfleoedd pwrpasol i blant drin llyfrau darllen ac adnabod eu henwau wrth hunangofrestru. Cynigir profiadau gwerthfawr i blant ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar, er enghraifft drwy farcio cofrestr byrbryd ac addurno lolipop rhew.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd plant yn dda trwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd i gyfri, didoli a chyfatebu, er enghraifft wrth gyfri pysgod yn y pwll dŵr a thrin arian yn y siop glan môr. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant (TGCh) wrth iddynt ddefnyddio teclyn gwrando i ddilyn cyfarwyddyd ac i gyd-ganu. Caiff plant gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau corfforol trwy sesiynau dawnsio rheolaidd a'u medrau creadigol trwy chwarae rôl yn yr ardal glan môr. Mae defnydd gwerthfawr o ymwelwyr megis y swyddog tân, ac ymweliadau i'r siop leol i archebu cardiau, yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant a'u gwneud yn ddysgwyr hyderus.

Mae’r ddarpariaeth i ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth y plant o ddiwylliannau eraill yn datblygu’n effeithiol trwy gyflwyno dathliadau megis Gŵyl Hanukkah a darparu amrediad eang o adnoddau.

Mae’r lleoliad yn rhoi cyfleoedd da i ddathlu traddodiadau a dathliadau Cymreig trwy weithgareddau megis coginio cawl ar Ddydd Gŵyl Dewi a chanu hwiangerddi dyddiol.

**Addysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n dda fel tîm ac mae gan bron pob ymarferwr ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn deall sut mae plant yn datblygu ac yn defnyddio’r wybodaeth hon fel sail i ddisgwyliadau realistig o gyraeddiadau’r plant. Mae’r lleoliad wedi sefydlu arferion dyddiol buddiol sy’n sicrhau bod y plant yn ymgartrefu’n gyflym ar gychwyn sesiynau, ac yn teimlo’n ddiogel a chyfforddus yn y lleoliad. Mae ymddygiad y plant yn cael ei reoli’n effeithiol mewn ffordd sensitif a chadarnhaol iawn gan yr holl ymarferwyr.

Mae ystod ac ansawdd dulliau addysgu’r ymarferwyr yn gadarn. Maent yn dechrau gwneud defnydd effeithiol o gwestiynau penagored i ymestyn medrau meddwl y plant. Caiff y plant gyfleoedd gwerthfawr i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â’u dysgu wrth ddewis beth i’w wneud yn yr ardal tu allan. Mae hyn yn datblygu eu hannibyniaeth a’u hunanhyder yn dda. Mae’r ymarferwyr yn cynllunio digon o amser i blant ymgolli yn eu chwarae, gan adael iddynt arbrofi ac ymchwilio cyn ymyrryd.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd yn nodwedd gref o’r addysgu. O ganlyniad, mae llawer o’r plant yn datblygu'r medrau hyn yn effeithiol iawn trwy gyfri ac adnabod rhifau hyd at bump wrth chwarae rôl yn y siop. Maent hefyd yn defnyddio iaith fathemategol fel llawn a gwag yn gywir wrth lenwi cynwysyddion gyda phasta. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y plant yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar y plant yn ddigon effeithiol gan nad yw ymarferwyr yn modelu’r iaith Gymraeg yn ddigon graenus.

Mae’r ymarferwyr yn asesu cynnydd plant yn rheolaidd trwy arsylwi a chofnodi’r hyn y mae’r plant yn ei gyflawni. Defnyddiant y wybodaeth i gael darlun clir o’r hyn y gall pob plentyn ei wneud er mwyn gosod y camau nesaf yn eu cynllunio. Mae cyfleoedd rheolaidd i rieni drafod cynnydd eu plentyn trwy drafodaethau anffurfiol a darperir adroddiadau cynhwysfawr ar ddiwedd y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae defnydd adeiladol o raglenni addysg iechyd cyn-ysgol yn rhoi sylw da i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd byw yn iach. Mae’r plant yn cael cyfleoedd buddiol i ddysgu am gadw’n iach, trwy hylendid, bwyta ac yfed yn iachus a gweithgareddau corfforol dyddiol. Er enghraifft, mae’r plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac yn brwsio eu dannedd bob dydd yn annibynnol. Mae trefniadau dyddiol ar gyfer ailgylchu papur a bwyd yn datblygu dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd cynaliadwyedd.

Mae profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad personol ac emosiynol plant yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Er enghraifft, mae plant yn datblygu medrau cymdeithasol pwysig wrth ymateb i gyfarwyddiadau a dweud diolch am eu bwyd fel rhan o'u harfer ddyddiol. Maent yn adrodd gweddi cyn eu byrbryd i greu awyrgylch tawel. Mae'r ymarferwyr yn trafod teimladau gyda'r plant yn synhwyrol ac maent yn annog y plant i gymryd eu tro a rhannu yn llwyddiannus. Caiff chwilfrydedd plant am eu bywydau a chredoau eu hunain ac eraill ei ddatblygu'n llwyddiannus gan yr ymarferwyr trwy ddathliadau, straeon, cerddoriaeth a chwarae rôl.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan y lleoliad systemau effeithiol a thrywadl i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys sicrhau cymorth gan wasanaethau ac asiantaethau lleol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar gydag awyrgylch teuluol ac mae hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at les y plant. Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni a gofalwyr, yn sicrhau bod y plant yn hapus ac yn ymgartrefu'n dda iawn. Mae hon yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi ac mae'r ymarferwyr yn dangos parch at eu syniadau a'u diddordebau. Mae'r holl blant yn cael eu trin yn deg a'u parchu'n dda fel unigolion.

Mae'n gymuned gynhwysol sydd yn sicrhau mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a'r gweithgareddau dysgu ysgogol. Mae ymarferwyr yn annog plant i feddwl am eraill llai ffodus na hwy yn synhwyrol. Mae pwyslais gwerthfawr ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth ac mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i blant ddod i ddeall am ddiwylliannau amrywiol, er enghraifft trwy ddefnyddio offerynnau i gyd-chwarae gyda cherddoriaeth fyd-eang.

Mae'r adeilad a'r adnoddau o safon dda iawn ac mae'r lleoliad yn cynnig lle diogel i blant ddysgu. O ganlyniad, ceir amgylchedd dysgu sy'n atyniadol a chyffrous. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant ac yn gweddu'n dda i'w hanghenion. Gwneir defnydd creadigol o'r ardal tu allan. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant archwilio ac arbrofi ynghyd â datblygu eu medrau llythrennedd, rhif a meddwl yn ogystal â'u medrau corfforol yn dda. Mae'r arddangosfeydd lliwgar yn dangos parch at waith y plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol sydd â ffocws arbennig ar ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a sicrhau lles plant. Mae gan yr arweinydd profiadol weledigaeth glir ar gyfer datblygu amgylchedd ysgogol a hapus. Mae'r holl ymarferwyr yn ymwybodol o'r weledigaeth ac yn rhannu gwerthoedd, amcanion a nodau cytûn yn llwyddiannus. Mae hyn yn gryfder amlwg yn y lleoliad. Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm er mwyn hyrwyddo ethos gofalgar a chodi safonau plant yn llwyddiannus.

Mae strwythur rheoli cadarn wedi sefydlu ac mae dyletswyddau'r ymarferwyr wedi eu diffinio'n glir. Mae'r arweinydd yn rhannu ychydig o agweddau rheoli penodol gyda'r dirprwy arweinydd, ac mae'n ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol. Mae'r arweinydd yn cynnwys yr holl staff wrth gynllunio gweithgareddau ac mae hyn yn sicrhau'r defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod yr holl staff yn canolbwyntio'n dda ar anghenion y plant er mwyn darparu profiadau ysgogol a symbylol.

Mae gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad ymarferwyr yn flynyddol yn effeithiol ac yn arwain at hyfforddiant pwrpasol sy'n diwallu anghenion datblygu unigolion a'r lleoliad. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant buddiol er mwyn eu galluogi i ddefnyddio gweithdrefnau newydd ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd y plant. Mae hyn yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar allu ymarferwyr i adnabod anghenion grwpiau gwahanol o blant.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau'n briodol. Maent yn gefnogol ac yn derbyn adroddiadau llafar yn rheolaidd gan yr arweinydd ynglŷn â gwaith y lleoliad. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn yn rhy anffurfiol. O ganlyniad, nid ydynt yn ddigon ymwybodol o'r meysydd sydd angen eu datblygu wrth fonitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys cynllunio gweithgareddau cyfoethog sy'n datblygu medrau TGCh y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd yn adnabod y lleoliad yn dda. Mae ganddi ymwybyddiaeth gadarn o'r cryfderau yn ogystal â dealltwriaeth strategol o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Gyda chydweithrediad a chefnogaeth yr ymarferwyr a'r rhieni, mae wedi sefydlu prosesau a gweithdrefnau cadarn. Caiff y rhain eu defnyddio'n briodol er mwyn gwerthuso'r ddarpariaeth a'r safonau y mae plant yn eu cyflawni. Mae'r ymarferwyr yn adolygu ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd ac yn gwneud addasiadau pan fo angen. Er enghraifft, maent wedi bod yn greadigol iawn wrth ailgylchu adnoddau er mwyn creu ardaloedd defnyddiol y tu allan. Maent yn defnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol ar gyfer datblygu medrau rhifedd plant trwy weithgareddau synhwyraidd a cherddorol. Mae ymarferwyr yn ymgynghori'n rheolaidd â rhieni a phlant am syniadau ar gyfer gwelliannau ac er mwyn cynllunio gweithgareddau apelgar.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ac yn gywir. Defnyddir arfarniadau'r awdurdod lleol yn briodol er mwyn rhoi sylw addas i'r ddarpariaeth yn ogystal â'r hyn y mae plant yn llwyddo ei wneud yn dda. Mae hyn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r arweinydd yn gwneud defnydd digon rheolaidd o arsylwadau uniongyrchol wrth werthuso'r addysgu.

Mae cynllun gweithredu cyfredol y lleoliad wedi'i seilio'n gadarn ar feysydd sydd angen eu gwella ac mae cysylltiad uniongyrchol â'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn cynnwys costau perthnasol yn ogystal ag amserlenni ymarferol a meini prawf llwyddiant. Mae'n gynllun cryno sy'n hawdd ei ddeall ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r blaenoriaethau y maent yn gweithio tuag atynt. O ganlyniad, mae gan

y lleoliad systemau effeithiol er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliannau. Rhoddir ffocws clir ar godi safonau plant, yn enwedig eu medrau rhifedd a'u gallu i weithio'n annibynnol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n fuddiol at gyflawniadau a lles y plant. Un o gryfderau'r lleoliad yw'r bartneriaeth gref gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r arweinydd yn darparu gwybodaeth berthnasol iddynt drwy'r hysbysfwrdd, gwefannau cymdeithasol, cyswllt personol dyddiol a chylchlythyr cynhwysfawr sy'n amlinellu themâu'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda rhieni am gynnydd eu plant a sut i roi cymorth iddynt adref, er enghraifft cymorth gyda'r Gymraeg. Mae gweithdrefnau gwerthfawr i gyflwyno plant newydd i'r lleoliad sydd yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n dda.

Mae'r berthynas gynhyrchiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog y Mudiad Meithrin yn sicrhau bod y lleoliad yn cynllunio gweithgareddau diddorol. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar bartneriaethau effeithiol gyda chylchoedd eraill, gan rannu eu syniadau a'u arfer dda mewn diwrnodau agored.

Mae trefniadau pontio da gyda'r ysgol leol ar y safle, a'r ysgolion cyfagos. Mae hyn yn paratoi'r ffordd yn dda i blant symud ymlaen i gam nesaf yn eu haddysg. Mae trefniadau pontio ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus iawn.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o gysylltiadau cymunedol priodol i gynorthwyo dysgu'r plant. Er enghraifft, mae ymweliadau gan nyrs, swyddog croesi'r ffordd a swyddog tân yn helpu'r plant i ddysgu am gadw'n ddiogel yn lleol.
Mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos gyda chynllun Cam Wrth Gam a chynllun Twf Swyddi Cymru i gynnig cyfleoedd perthnasol i hyfforddi myfyrwyr cyrsiau gofal plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn rheoli'r ymarferwyr a'r adnoddau yn effeithiol. Mae gan yr holl staff gymwysterau a phrofiad addas o weithio gyda phlant ifanc ac maent yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm. Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar gynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau proffesiynol staff trwy system effeithiol o werthuso. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi buddiol. Er enghraifft, mae hyfforddiant rhifedd ac adnoddau rhif wedi bod yn gymorth i helpu plant gyfri ac adnabod rhifau yn fwy effeithiol. Gwneir y defnydd gorau o arbenigedd a phrofiad staff. Er enghraifft, mae ymarferwr wedi rhannu ei harbenigedd ar ddatblygiad iaith a lleferydd plant yn dilyn hyfforddiant gan y tîm thearpyddion iaith. Mae effaith yr hyfforddiant wedi bod yn gymorth i wella medrau llafaredd rhai o'r plant a oedd ei angen.

Mae'r lleoliad wedi creu amgylchedd dysgu cyffrous ac yn rhannu eu harfer dda o ran y ddarpariaeth gyda lleoliadau eraill. Mae'r amgylchedd dysgu hwn yn ysgogi plant ac yn codi eu hawydd i ddysgu. Mae'r arweinydd yn blaenoriaethu materion cyllidebol yn synhwyrol gan ganolbwyntio'r gwariant ar flaenoriaethau'r lleoliad yn llwyddiannus.

O ystyried ansawdd da'r adnoddau, y ddarpariaeth ysgogol a'r arweinyddiaeth gadarn, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 9 | 9<br>100%<br>80% | 0<br>0%<br>20% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| My child likes this setting. | 10 | 10<br>100%<br>85% | 0<br>0%<br>15% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 9 | 9<br>100%<br>86% | 0<br>0%<br>13% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 7<br>70%<br>81% | 3<br>30%<br>18% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| Children behave well in the setting. | 10 | 7<br>70%<br>72% | 3<br>30%<br>27% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| Teaching is good. | 10 | 9<br>90%<br>81% | 1<br>10%<br>19% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 10<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 9<br>90%<br>77% | 1<br>10%<br>23% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at the setting. | 10 | 10<br>100%<br>85% | 0<br>0%<br>15% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 10 | 8<br>80%<br>72% | 2<br>20%<br>27% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 9<br>90%<br>63% | 1<br>10%<br>30% | 0<br>0%<br>5% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 66% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Lloyd Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Tîm |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |